

PWYLLGOR	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD	27 Hydref 2022
TEITL	CYFLWYNO CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY
AELOD CABINET	Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Adran Amgylchedd
AWDUR	Dafydd Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd
PWRPAS	Cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer ei fabwysiadu gan Gabinet Y Cyngor

1. CEFNDIR

- 1.1 Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Craffu yng nghyfarfod 4 Tachwedd 2021 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) yn ystod haf eleni. Atodir y ddogfen a ddefnyddiwyd i bwrpas yr ymgynghoriad, gweler Atodiad 1.
- 1.2 Pwrpas y CGHT yw gosod arweiniad lefel uchel ar gyfer gwaith y Cyngor ym maes mynediad i gefn gwlad, er bod pwyslais ar y rhwydwaith hawliau tramwy rhaid hefyd ystyried asedau mynediad eraill sydd o dan reolaeth Y Cyngor.
- 1.3 Pwrpas yr adroddiad yma yw :
- Adrodd yn nol i'r Pwyllgor ar ganlyniad y broses ymgynghori
 - Derbyn sylwadau pellach y Pwyllgor Craffu
 - Derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu i'r CGHT cael ei gyflwyno i Gabinet Y Cyngor ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol.

2. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

- 2.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 14 wythnos rhwng Mehefin 27 a Medi 30, 2022. Rhoddwyd y ddogfen drafft ynghyd a holiadur ar dudalen Dweud Eich Dweud ar safle we'r Cyngor ac argraffwyd copïau caled ar gyfer llyfrgelloedd a swyddfeydd Y Cyngor. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad ar gyfryngau cymdeithasol Y Cyngor, sef Facebook a Thrydar. Cysylltwyd yn uniongyrchol a sefydliadau megis Y Cynghorau Cymuned a Thref, Y Parc Cenedlaethol, yr Undebau Amaethyddol a chynrychiolwyr mudiadau sy'n cynrychioli gwahanol garfannau defnyddwyr.
- 2.2 Derbyniwyd cyfanswm o 294 o ymatebion dilys i'r holiadur. Roedd y rhan fwyaf (92.2%) o'r ymatebwyr yn ateb fel unigolyn, gyda 5.8% yn ateb ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes.
- 2.3 Mae canlyniadau llawn yr ymgynghoriad i'w gweld yn adroddiad Atodiad 2. "Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd" sydd wedi ei baratoi gan y Tîm Ymchwil a Dadansoddi.
- 2.4 Mae'r canlyniadau yn disgyn i ddau gategori sef :
- a. Ymateb i'r 7 cwestiwn a ofynnwyd yn yr holiadur, seliwyd y cwestiynau ar y Datganiadau Gweithredu a ystyriwyd gan y Gwasanaeth fel y rhai mwyaf cynhennus ag sydd a'r oblygiadau mwyaf o safbwynt adnoddau staff a chyllidebau gwaith
Mae Atodiad 3 yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r 7 cwestiwn, gwelir bod y mwyafrif o'r ymatebion yn cyd-fynd a'r Datganiadau Gweithredu.

b. Sylwadau gan yr ymatebwyr, mae'n galonogol bod cynifer o sylwadau wedi eu derbyn a gwelir detholiad ohonynt yn Adroddiad Atodiad 2. Mae rhai themâu yn amlwg :

- Sylwadau am achosion penodol er enghraifft llwybrau wedi cau neu wedi rhwystro.
- Awgrymiadau ar gyfer llwybrau gellir eu datblygu yn enwedig llwybrau aml ddefnydd.
- Diffyg adnoddau i gynnal y rhwydwaith a methiant Y Cyngor i gwrdd â'i ddyletswydd statudol i gynnal a gwarchod hawliau tramwy.
- Unigolion a chyrrff yn awyddus i wirfoddoli i gynnal a gwella llwybrau.

2.5 Bydd y Gwasanaeth yn ystyried y sylwadau a rhagwelir gellir eu defnyddio i gynorthwyo gyda'r gwaith o lunio rhaglenni gwaith.

3. CASGLIADAU

3.1 Credaf fod yr ymateb i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu dyhead ymysg pobl Gwynedd i gael rhwydweithiau mynediad sy'n ddiogel a hygyrch at ddefnydd pob carfan o ddefnyddwyr.

3.2 Mae'r ymateb, er ddim yn unfrydol yn dangos bodlonrwydd cyffredinol gyda chyfeiriad a chynnwys y CGHT. Mae yna le i addasu geiriad ambell gymal ac i wella gosodiad a diwyg y ddogfen ond rwyf o'r farn nad oes angen newidiadau pellach oni bai bod gan y Pwyllgor Craffu argymhellion ar faterion penodol.

3.3 Rhaid cydnabod yr her sy'n wynebu'r Adran wrth fynd ati i weithredu'r CGHT ac mae'n anorfod y bydd rhaid blaenoriaethu ymdrech ac adnoddau dros y blynyddoedd nesaf. Rhaid serch hynny sicrhau bod y Datganiadau Gweithredu canlynol yn cael eu blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod amcanion craidd y CGHT yn cael eu gwireddu.

Datganiad Gweithredu Blaenoriaeth uchel	Cyfnod
3b . Diweddarau dogfen Polisiâu Hawliau Tramwy er mwyn adlewyrchu lefelau adnoddau presennol a newidiadau mewn defnydd tir.	Erbyn Hydref 23
c. "Ail asesu categorïau llwybrau i greu rhwydwaith sy'n adlewyrchu'n well anghenion cymunedau'r Sir. "	Y cam cyntaf fydd sefydlu a threialu trefn weithio cyn diwedd 2023

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu gymeradwyo'r

- Adran Amgylchedd i baratoi fersiwn terfynol o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac i ymgorffori unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Craffu.
 - Cymeradwyo Cabinet y Cyngor i fabwysiadu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.
-

ATODIADAU

Atodiad 1: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd (Dogfen Ymgynghoriad Cyhoeddus))

Atodiad 2: Adroddiad Canlyniadau Ymgynghoriad Cyhoeddus

Atodiad 3: Ymatebion yr holiadur

